**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

21 Chwefror 2024

Annwyl Lesley,

Trafod cynigion ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Roeddwn yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol eich hysbysu bod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith wedi cytuno i wneud gwaith ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig i'r graddau y mae'n ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn bwriadu cwblhau'r gwaith o gasglu tystiolaeth erbyn diwedd mis Mawrth, gyda'r bwriad o gyflwyno adroddiad ym mis Mai. Hyderaf y bydd hyn yn rhoi digon o amser i chi ystyried argymhellion y Pwyllgor cyn cwblhau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Nid ydym yn rhagweld y byddwn yn eich gwahodd i roi tystiolaeth ar hyn o bryd, ond os bydd hyn yn newid, byddaf yn gofyn i'r tîm clercio gysylltu â'ch swyddfa.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, a Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.